THE NUFFIELD REVIEW OF
14-19
EDUCATION & TRAINING

Addysg i Bawb

Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Bobl Ifanc 14-19 Oed

CRYNODEB CYMRU

Crynodeb yw'r canlynol o brif ganfyddiadau Adolygiad Nuffield o Addysg a Hyfforddiant 14-19 a oedd yn cynnwys Cymru a Lloegr fel ei gilydd. Cyhoeddwyd yr Adolygiad gan Routledge ym mis Mehefin, 2009. Dyma'r adolygiad mwyaf o'r cyfnod addysg hwn ers Adroddiad Crowther ym 1959. Mae'r crynodeb hwn, er yn trafod yr Adolygiad yn ei gyfanrwydd, yn canolbwyntio'n arbennig ar Gymru. Mae rhai o'r materion sy'n ymwneud yn benodol â Lloegr felly wedi'u hepgor.

Adolygiad annibynnol oedd Adolygiad Nuffield o bob agwedd ar addysg a hyfforddiant 14-19, a gyllidwyd gan Sefydliad Nuffield. Mae ei adroddiadau a'i bapurau ar gael yn www.nuffield14-19review.org.uk. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan gyfarwyddiaeth yn cynnwys Richard Pring a Geoff Hayward (Adran Addysg Prifysgol Rhydychen), Ann Hodgson a Ken Spours (Athrofa Addysg Prifysgol Llundain), Jill Johnson (UCAS), Ewart Keep (Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd) a Gareth Rees (Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd), gyda chymorth swyddogion ymchwil, sef Alis Oancea, Stephanie Wilde a Susannah Wright, a chymorth gweinyddol Joanne Hazell.

Mae diolchiadau arbennig yn ddyledus i'r Athro David Egan ac i Gary Brace o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, y bu eu tystiolaeth a'u sylwadau critigol dros gyfnod yr Adolygiad o gymorth mawr.

Pam Adolygiad

Yn gyntaf, *pam 14-19*? Fwyfwy rydym yn ystyried y cyfnod hwn yn gyfnod penodol iawn yn addysg pob person ifanc. Yn 14 oed, mae gofyn i bobl wneud penderfyniadau mawr a fydd yn effeithio ar weddill eu bywydau.

Yn ail, *pam Adolygiad*? Mae angen mynd i'r afael ag ystod o broblemau: mae llawer o bobl ifanc yn cefnu ar addysg ar y cyfle cynharaf; mae athrawon (yn Lloegr yn sicr, ond i raddau tipyn llai yng Nghymru na Lloegr) yn teimlo'u bod yn cael eu cyfyngu gan yr ymyraethau cyson o du'r llywodraeth a chan y drefn asesu; mae prifysgolion yn pryderu am barodrwydd pobl ifanc i fynd i addysg uwch; ac mae cyflogwyr yn cwyno am ddiffyg paratoi at fyd cyflogaeth o ran sgiliau, gwybodaeth ac agwedd. Er gwaethaf llawer o fentrau clodwiw gan y priod lywodraethau, mae angen gwneud mwy o hyd. Mewn llawer o achosion, mae angen mabwysiadu polisïau gwahanol.

Roedd yr Adolygiad yn un annibynnol, a dynnodd ar gymorth athrawon, ymchwilwyr, darparwyr hyfforddiant, gwasanaethau ieuenctid, cyrff gwirfoddol, cyflogwyr, cyrff proffesiynol, undebau athrawon a swyddogion a gymerodd ran mewn seminarau ac a gyfrannodd at bapurau trafod. Mae llawer o'r dystiolaeth wedi'i gosod ar wefan yr Adolygiad (nuffield14-19review.org.uk), a'r gobaith yw y bydd yn parhau i ddatblygu, wrth i'r drafodaeth, wedi'i sbarduno gan yr Adolygiad, barhau.

Y Cwestiwn Allweddol

Mae angen gweledigaeth eglur o'r nod cyffredinol mewn polisi ac arfer addysgol. Yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn canlynol felly a roddodd gig ar esgyrn yr Adolygiad gydol y cyfnod:

Beth yw ystyr person ifanc 19 oed addysgedig yn yr oes sydd ohoni?

Mae gwerthoedd yn fframio popeth a wnawn a phopeth a benderfynwn, yn anad dim mewn addysg. Mae'r gwerthoedd rydym yn eu harddel yn effeithio ar ein safbwyntiau – ac yn y pen draw ar y penderfyniadau a wnawn ynghylch cwestiynau fel a ganlyn:

- a ddylid dewis yn ôl gallu ai peidio;
- a ddylid gwneud y celfyddydau'n orfodol neu'n ddewisol yn y cwricwlwm 14-19;
- a ddylid adeiladu ar y profiadau sy'n cael eu cyflwyno gan bobl ifanc i'r ysgol ai eu diystyru;
- a ddylid gwobrwyo cyflawniad academaidd yn hytrach na gallu ymarferol.

Gallem nodi rhagor. Pwynt hyn oll yw bod pob penderfyniad felly'n ymgorffori gwerthoedd sy'n sail, yn ymarferol ac er gwell neu er gwaeth, i nodau sylfaenol ac ymhlyg addysg. Bu'r Adolygiad, felly, yn dadlau o blaid dealltwriaeth o addysg *i bawb* a fyddai'n darparu'r canlynol:

- yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i 'reoli bywyd yn ddeallus';
- cymhwysedd i wneud penderfyniadau am y dyfodol yng ngoleuni amodau economaidd a chymdeithasol;
- gallu ymarferol – gan gynnwys paratoi at gyflogaeth;
- difrifoldeb moesol er mwyn llunio dewisiadau a pherthnasau yn y dyfodol;
- ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r gymuned.

Mae gwybodaeth, gallu a nodweddion o'r fath yn bwysig, ac yn hygyrch (i wahanol raddau) i bob person ifanc, ni waeth bynnag ei gefndir. Felly, yr hyn sy'n bwysig, fel y dadleuir yn yr Adolygiad, yw'r ffordd y caiff yr wybodaeth, y galluoedd a'r nodweddion hanfodol hyn eu trosi i greu profiadau dysgu i bobl ifanc, i'r cwricwlwm, i rôl a hyfforddiant athrawon, i'r 'dangosyddion' y bernir ysgolion a cholegau yn eu herbyn, i'r fframwaith cymwysterau, ac i hyfforddiant pellach.

Casgliadau Cyffredinol

Mae'r Adolygiad yn cymeradwyo'r cryn gyflawniadau a gafwyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ddwy lywodraeth wedi wynebu problemau ymestyn cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ateb dyheadau cymdeithasol ac economaidd ein priod gymdeithasau a dyheadau personol eu dinasyddion yn y dyfodol. Yng Nghymru, mae *Llwybrau Dysgu* yn herio cysyniadau traddodiadol o gyfleoedd dysgu; mae Bagloriaeth Cymru yn dangos fframwaith mwy cyfannol a hyblyg ar gyfer dysgu; mae Cymru a Lloegr fel ei gilydd yn mynd ar drywydd y polisi canmoladwy o bartneriaethau cydweithredol rhwng ysgolion a cholegau, iechyd a gwasanaeth cymdeithasol, systemau dysgu ffurfiol ac anffurfiol, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant annibynnol. Felly mae llawer o waith clodwiw yn mynd rhagddo.

Fodd bynnag, ni welir y cynnydd y gellid disgwyl ei weld yn sgil buddsoddiad mor helaeth. Mae'n bosibl bod llywodraethau'n ceisio gwneud gormod – gan gofio na ellir datgysylltiad 'methiant' addysgol yn llwyr wrth gyd-destunau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Neu mae'n bosibl bod yna ddiffygion yn y polisïau hynny a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu.

Mae'r Adolygiad, felly, yn edrych tua'r dyfodol, yn gofyn am bum peth cyffredinol, y mae rhai ohonynt eisoes yn cael eu gweithredu i wahanol raddau ac mewn gwahanol ffyrdd o fewn y ddwy system:

Ail-nodi gweledigaeth ehangach o addysg lle mae parch dwfn at y person cyfan (nid yr amgyffrediad cul yn unig o 'ragoriaeth ddeallusol' neu 'sgiliau ar gyfer ffyniant economaidd'), ni waeth bynnag gallu neu gefndir diwylliannol a chymdeithasol, lle mae gweledigaeth ehangach o ddysgu a lle mae'r dysgu'n cyfrannu at gymdeithas fwy cyfiawn a chydlynol.

Dangosyddion perfformiad y system sy'n 'addas at y diben', lle mae'r 'mesurau llwyddiant' yn adlewyrchu'r ystod hon o nodau addysgol, ac nid yn unig y rheiny sy'n hawdd eu mesur neu sy'n plesio rhai rhanddeiliaid yn unig.

Ailddosbarthu grym a'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau fel bod mwy o le i lais y dysgwr, arbenigedd yr athro a phryderon rhanddeiliaid eraill mewn ymateb i anghenion dysgu pob person ifanc yn eu gwahanol leoliadau economaidd a chymdeithasol.

Creu systemau dysgu lleol sy'n cydweithredu'n gryf lle gall ysgolion, colegau, sefydliadau addysg uwch, y gwasanaeth ieuenctid, darparwyr hyfforddiant annibynnol, cyflogwr a chyrff gwirfoddol weithio gyda'i gilydd er budd cyffredin – ym maes datblygu'r cwricwlwm, wrth ddarparu cyfleoedd i bob dysgwr mewn ardal ac wrth sicrhau dilyniant priodol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Datblygu system fwy unedig o gymwysterau sy'n ateb doniau amrywiol pobl ifanc, y gwahanol lefelau ac arddulliau dysgu, ac anghenion amrywiol y gymuned ehangach, ond sy'n osgoi'r natur dameidiog, ymrangar ac anghydradd sy'n tueddu i nodweddu'r system bresennol o bryd i'w gilydd.

Y tu ôl i alwadau cyffredinol o'r fath, mae stori fanylach i'w hadrodd. Nodir crynodeb o'r stori honno isod, ynghyd â llawer o argymhellion a restrir ar y diwedd. Fodd bynnag, mae'r dargyfeiredd rhwng Cymru a Lloegr yn sylweddol ac yn gyfarwyddiadol. Ac mae'n wir nad yw'r 'Casgliadau Cyffredinol' a amlinellir uchod, y 'Meddwl o'r Newydd a'r Polisïau Newydd', na'r 'Argymhellion' ar y diwedd yn berthnasol yn yr un modd i'r ddwy system. Yn gyntaf darparwn drosolwg o ddatblygiadau penodol Cymru.

Safbwynt Cymru

Mae'r Adolygiad yn nodi'n gyson y ffyrdd y mae'r system ddatganoledig newydd o addysg a hyfforddiant yng Nghymru wedi bod yn ymafael, mewn ffyrdd gwahanol a phenodedig, â'r problemau sy'n wynebu'r ddwy wlad. Gellir crynhoi'r rhesymau dros hyn orau drwy gyfeirio at Adroddiad Webb (2005) (1.20) ar addysg bellach yng Nghymru.

> Mae gan y DU draddodiad gwael o osod dysgu galwedigaethol ochr yn ochr â dysgu academaidd, gan gymharu'n anffafriol gyda chymdogion Ewropeaidd. Mae dysgu ymarferol a dysgu drwy brofiad yn ymddangos fel petai wedi'i dorri'n gynyddol gan amryw o rwystrau. Rhaid i Gymru dorri oddi wrth ei hetifeddiaeth yn y DU yn y ddwy agwedd os yw am sicrhau bod yr addewid o hawl yn realaeth i bawb.

Yn wir, tan 1999, bu Cymru'n rhannu'r un ymdrechion â Lloegr i fynd i'r afael â'r problemau, nad ydynt yn rhai newydd o bell ffordd. Nid yw llawer o'r ymatebion arfaethedig yn newydd ychwaith. Soniodd Adroddiad Newsom, ddeugain mlynedd yn ôl, am 'hanner ein dyfodol'. Mae'r 'hanner gwaelod' hwnnw yn peri pryder hyd heddiw. Mae cynifer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb eu paratoi'n ddigonol at astudio pellach neu hyfforddiant. Mae cyfran helaeth ohonynt yn bobl 'nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant cyn cyrraedd 19 oed (gan ymuno â'r grŵp 'NEET'). I ateb y problemau

hyn, ers cyhoeddi Adroddiad Newsom, bu newidiadau cyson i gymwysterau, llu o opsiynau 'galwedigaethol', diwygio prentisiaethau, cyflwyno cwricwlwm cenedlaethol (a'i ddiwygio'n barhaus), ac ymgais ar ôl ymgais i greu partneriaethau gyda chyflogwyr. Ond mae hyn oll yn enghraifft amlwg o droi mewn cylchoedd yn hytrach nag o wneud cynnydd. Gellir gweld pam yr awgrymodd Adolygiad Webb fod yn 'rhaid i Gymru dorri oddi wrth ei hetifeddiaeth yn y DU'.

Er 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) wedi hyrwyddo rhaglenni penodedig drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:

- gweledigaeth ehangach o ddysgu a 'lles', fel y nodwyd yn ei chyhoeddiad yn 2002, 'Llwybrau Dysgu 14-19 a Thu Hwnt', gyda phwyslais ar 'lwybrau dysgu unigol' a 'chraidd dysgu' o sgiliau allweddol ehangach, addysg bersonol a chymdeithasol a phrofiad gwaith. Mae'r dyniaethau yn rhan o'r 'craidd' hwnnw, drwy astudio 'Cymru, Ewrop a'r Byd';
- system fwy unedig o gymwysterau, gan ddarparu mwy o ddewis a hyblygrwydd o fewn fframwaith cydlynol, a adlewyrchir drwy ddatblygu Bagloriaeth Cymru;
- mwy o bwyslais ar 'lais y dysgwr' ac anghenion dysgu, a ddangosir yn y defnydd helaeth o 'hyfforddwyr dysgu' a Chynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru (y Ddraig Ffynci);
- cynllun peilot Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o lwybr cydnabyddedig a safonol o ennill 'statws athro cymwys' (er nad yw'n berthnasol i athrawon mewn addysg bellach);
- y penderfyniad i beidio â dilyn trywydd Lloegr o gynnal asesiadau parhaus at ddibenion atebolrwydd – dim rhagor o TASau na thablau perfformiad;
- cyflwyno cwricwlwm seiliedig ar sgiliau o fis Medi 2008.

Cyfeiriwn eto at Adolygiad Webb (1.19): 'Dylai cyfleoedd addysg fod mor amrywiol â'r ysgogiadau i ddysgu a'r dulliau gwahanol o ddysgu lle mae dysgwyr fwyaf cyfforddus.'

Ond mae agweddau eraill hefyd, sydd, fel yn Lloegr, yn dangos cam i ffwrdd yn yr un modd o bolisi ac arfer y gorffennol yn yr ymgais dyfeisgar i fynd i'r afael â dyfodol sy'n addo amodau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol tra gwahanol. Nodir yma:

- pwyslais ar hawl eang i'r ystod cyrsiau academaidd bondigrybwyll a'r ystod fwy galwedigaethol neu ymarferol – a adlewyrchir yn y ddogfen 'Ymestyn Hawliau';
- yr agenda 'Trawsnewid Addysg' sy'n mynnu cydweithrediad rhwng ysgolion a cholegau a Gyrfa Cymru – trwy'r 'Rhwydweithiau Dysgu 14-19' (y cyfeiria'r Adolygiad atynt fel 'systemau dysgu lle mae cydweithredu cadarn');
- y Mesur Dysgu a Sgiliau mewn ysgolion, sy'n mynnu bod ysgolion yn cyflwyno pynciau galwedigaethol.

Ar naill law, gellid ystyried bod Cymru'n darparu cyd-destun mwy ffafriol na Lloegr oherwydd y datblygiadau hyn. Mae strwythur sefydliadol llai cymhleth (dim academïau nac ysgolion arbenigol gyda'u gwahanol ddulliau llywodraethu, cyllido a derbyn; canran lawer llai o ysgolion annibynnol; cyllid cyfartal i ddarpariaeth ôl-16 boed honno mewn ysgol neu goleg; traddodiad cryfach o ysgolion cymunedol nag sydd yn Lloegr).

Ar y llaw arall, mae anawsterau anochel y mae angen eu goresgyn:

- mae cyd-destun daearyddol llawer o ysgolion yn ei gwneud yn anodd i'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 ddarparu hawl gyflawn, o fewn ac ar draws bob un o'r 22 awdurdod addysg lleol;
- mae'r traddodiad cryf o ymreolaeth ysgolion fel yn Lloegr yn milwrio yn erbyn cydweithredu mewn rhai achosion;
- mae'n anodd sicrhau ymglymiad cyflogwyr a'r lleoliadau gwaith, sy'n hanfodol ar gyfer yr hawl lawn a'r dull dysgu mwy ymarferol;
- oherwydd symudedd academaidd, mae cymwysterau newydd yn parhau'n rhwym wrth yr hen rai; mae TGAU a Safon Uwch yn bodoli o hyd; ac mae gwerth Bagloriaeth Cymru'n dibynnu ar y gydnabyddiaeth amdani o du prifysgolion ledled y DU – ni waeth bynnag ei rhinweddau addysgol.

Felly, er gwaethaf y weledigaeth at y dyfodol sy'n aml yn llawn dychymyg ac ysbrydoliaeth, mae'r canlyniadau'n parhau'n siomedig. Mae'r 'torri oddi wrth ei hetifeddiaeth yn y Deyrnas Unedig' yn dal i adael Cymru mewn sefyllfa o gymharu'n 'anffafriol â'i chymdogion Ewropeaidd' a hyd yn oed â Lloegr o ran canlyniadau mesuradwy fel rhai'r PISA; mae'r 'NEET' yn parhau i gyfrif am ryw 10% o'r bobl ifanc 17 oed – sydd ychydig yn waeth na sefyllfa Lloegr; mae'r lefelau cyrhaeddiad cynyddol fel y mesurir gan ganlyniadau TGAU yn annigonol i gau'r bwlch â Lloegr – er bod cyrhaeddiad ar ddiwedd y cyfnod cynradd yn uwch yng Nghymru.

Wrth gwrs, mae angen i ni atgoffa'n hunain o honiad Basil Bernstein 'na all addysg wneud iawn am gymdeithas'. Mae anfantais economaidd rhai ardaloedd yn creu problemau anferth i'w goresgyn. At hynny, mae'r diwygiadau a sbardunwyd ym 1999 yn anochel yn cymryd amser i'w gweithredu a chael effaith. Ac mae LlCC wedi llunio strategaethau newydd ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau hyn drwy hyrwyddo dysgu mwy ymarferol, drwy'r fframwaith cryfach ar gyfer y rhwydweithiau yn ei Chynllun Gweithredu diweddar a thrwy Goncordat y Cyflogwyr sy'n ategu rhagor o gyfleoedd galwedigaethol.

Meddwl o'r Newydd a Pholisïau Newydd

Mae'r hyn sy'n dilyn yn crynhoi prif ddadleuon yr Adolygiad a ddarparodd ddarlun eang o'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn y priod systemau neu yn arferion ysgolion a cholegau i wahanol raddau ac mewn gwahanol ffyrdd.

Nodau a Gwerthoedd

Fel y nodir uchod, *dylai addysg a hyfforddiant gael eu harwain a'u hysbrydoli gan nodau a gwerthoedd sy'n berthnasol i bob person ifanc, ni waeth bynnag ei gefndir, ei allu a'i ddawn.* Mae nodau o'r fath yn parchu'r person ifanc fel unigolyn cyflawn, y mae arno angen nid yn unig datblygiad deallusol, ond hefyd ymdeimlad ehangach o gyflawniad, hunan-barch a gobaith. Maent yn adnabod ac yn meithrin 'difrifoldeb moesol' – ymdeimlad o gyfrifoldeb at eu bywydau yn y dyfodol, at eraill ac at y gymuned ehangach.

Mae iaith yn bwysig. Mae'r geiriau a ddefnyddiwn yn dylanwadu ar ein ffordd o feddwl. Mae iaith Orwelaidd (sy'n treiddio drwy ddogfennau llywodraeth Lloegr) sy'n trafod 'rheoli perfformiad a rheolaeth' wedi dod i ddominyddu trafodaethau am addysg a chynllunio yn y wlad honno – iaith 'mewnbwn' ac 'allbwn' mesuradwy, 'dangosyddion perfformiad' a 'archwiliadau', 'targedau' a 'chyflwyno'r cwricwlwm', 'cwsmeriaid' a 'chyflenwyr', 'arbedion effeithlonrwydd' a 'llinellau gwaelod'. Mae angen bod yn ochelgar iawn i sicrhau nad yw'r fath dreiddio'n digwydd yng Nghymru.

Adlewyrchu amodau cymdeithasol ac economaidd addysg a hyfforddiant

Mae'n anochel y bydd *amodau cymdeithasol ac economaidd* yn cael effaith ar ymdrechion ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith i godi safonau, datblygu dinasyddion a lliniaru effeithiau andwyol anfantais. Ac mae rhannau o Gymru, fel y noda'r Adolygiad, wedi dioddef yn ddifrifol oherwydd dirywiad diwydiant trwm a'r pyllau glo. Fodd bynnag, mae hanes yn dangos cyfyngiadau diwygiadau addysg wrth geisio datrys problemau y mae ganddynt wreiddiau cymdeithasol ac economaidd dyfnach.

Mae'r *amodau cymdeithasol ac economaidd* hynny'n golygu mai llawer o ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith yw prif ddarparwyr y gofal hynny am les, gwytnwch a hunan-barch pobl ifanc. Mae perygl gwirioneddol y gallai cydnabyddiaeth o'r cyfrifoldeb ehangach hyn ar ysgolion a cholegau, ac ymdrechion diwyd athrawon di-rif, fynd ar goll os cymhwysir 'dangosyddion perfformiad' cul.

Perfformiad cyffredinol a'r dull o'i fesur

Mae *cyfraddau cyfranogiad gwael, cyfraddau uchel o ymadael cyn gorffen cyrsiau a lefelau cyrhaeddiad isel* yn nodweddu systemau Cymru a Lloegr ac adlewyrchir hyn yn y categori cymharol fawr o bobl ifanc sy'n cael eu hadnabod fel NEET. At hynny, mae rhaniad yn parhau mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau o fantais ac anfantais gymdeithasol. Mae un fenter ar ôl y llall i gynyddu cyfranogiad a dilyniant wedi methu â chael yr effaith y gobeithiwyd amdani. Ond cyhoeddir dau rybudd: yn gyntaf, mae llai o fai am hyn ar y rhaglenni addysg a hyfforddiant nag sydd ar y ffactorau eraill yn y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd ehangach; yn ail, mae angen i ddangosyddion perfformiad ystyried amgylchiadau cymdeithasol gwahanol ysgolion a cholegau – a'u cenadaethau gwahanol o fewn y cyd-destun hwnnw.

Mae *amrywioldeb trefniadau sefydliadau* yn Lloegr, er nad yng Nghymru, yn ei gwneud yn anodd ateb anghenion yr holl ddysgwyr mewn ardal. Mae polisi yn Lloegr wedi annog cymhlethdod rhwng sefydliadau, gyda threfniadau llywodraethu gwahanol a lefelau cyllid anhafal yn aml. Nid yw'r un peth yn wir am Gymru o ran amrywioldeb rhwng trefniadau sefydliadau, ac mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd i sicrhau bod cyllid yn hafal. Yn wir, mae system gynllunio a chyllido gyffredin yn cael ei chyflwyno yng Nghymru ar gyfer addysg ôl-16. Mae Trawsnewid Addysg a'r Mesurau Dysgu a Sgiliau y soniwyd amdanynt yn flaenorol yn dangos ymagwedd wahanol.

Dysgu, addysgu ac asesu

Mae angen gweledigaeth ehangach o ddysgu. Mae rhaglenni dysgu yn rhy aml yn gwbl 'academaidd' eu natur, gan fethu â chydnabod dysgu ymarferol a dysgu drwy brofiad – ac mae hon yn broblem y mae Cymru'n mynd i'r afael â hi ei 'Llwybrau Dysgu'. Canfu'r Adolygiad lawer o fentrau sy'n adeiladu ar weledigaeth ehangach o ddysgu ac sy'n rhoi gwerth i ddysgu ymarferol a dysgu drwy brofiad – er ei bod yn anodd uno hyn â threfn asesu yn Lloegr sy'n blaenoriaethu 'trosglwyddo gwybodaeth' a chyrraedd amcanion rhagdybiedig.

Mae gweledigaeth ehangach o asesu'n dilyn yn sgil gweledigaeth ehangach o ddysgu. Yn y gorffennol mae'r system wedi methu ag adlewyrchu cyfannedd dysgu a chyflawniad, ac wedi canolbwyntio ar yr hyn sy'n haws i'w fesur. Mae tystiolaeth yn Lloegr bod hyn yn parhau i annog 'addysgu yn ôl y prawf', gan wanychu ansawdd y dysgu. Yn yr achosion lle mae hyn yn digwydd, methir â defnyddio ystod lawn y teclynnau asesu sy'n cydnabod gwahanol ddimensiynau dysgu. Yn hyn o beth, mae Cymru wedi mynd ar drywydd gwahanol, gan waredu'r TASau a hyrwyddo asesu athrawon.

Mae ansawdd addysgu a'r berthynas rhwng athrawon a dysgwyr wrth galon addysg lwyddiannus. Mae hyn yn mynnu parch at y proffesiwn addysgu – at rôl athrawon fel gwarcheidwaid yr hyn rydym yn ei werthfawrogi ac fel arbenigwyr wrth gyfathrebu hynny i'r dysgwyr. Dylai athrawon fod wrth graidd datblygu'r cwricwlwm, ac nid dim ond y rhai sy'n 'cyflwyno' cwricwlwm rhywun arall. Ers datganoli, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos mwy o barch at farn broffesiynol athrawon nag sy'n wir yn Lloegr.

Dylai fframwaith cwricwlwm cytunedig ar gyfer yr 21ain Ganrif fod yn ddigon eang i gydnabod arbenigedd athrawon wrth addasu addysgu yn ôl amgylchiadau'r dysgwyr – gan ystyried eu profiadau ac ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau. Byddai fframwaith cenedlaethol hyblyg o'r fath yn cynnwys: y mathau o ymholi deallusol sy'n galluogi dysgwyr i wneud synnwyr o'r byd ffisegol a chymdeithasol maent yn rhan ohono; cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o gyflawniad; datblygu galluoedd sy'n berthnasol yn ymarferol ac yn economaidd; cyflwyniad i faterion o bryder cymdeithasol dwys; gwybodaeth, cyngor ac arweiniad; a pherthnasedd i'r gymuned ehangach y mae'r bobl ifanc yn symud i mewn iddi.

Cymwysterau a dilyniant

Dylai'r *fframwaith cymwysterau* adlewyrchu yn hytrach na thywys yr hyn a ddysgir, adeiladu ar nodweddion llwyddiannus cymwysterau sy'n bodoli eisoes, symud tuag at ymagwedd fwy unedig, a hwyluso llwybrau hyblyg i addysg uwch, hyfforddiant pellach a chyflogaeth. Mae Bagloriaeth Cymru'n darparu'r fframwaith ar gyfer ymagwedd o'r fath a model i'r hyn y gellid ei esblygu yn Lloegr, fel y mae'r Adolygiad yn ei ddadlau. Yn anochel, felly, bydd rhyngberthynas agos yn parhau ymysg y cyrff dyfarnu yn y ddwy wlad.

Mae *Prentisiaethau Uwch* yn darparu llwybrau rhagorol i gyflogaeth, gan ennyn premiymau cyflogau cystal â graddau mewn rhai achosion. Mae prentisiaeth yn draddodiad y mae'n werth ei hyrwyddo lawer yn fwy fel opsiwn amgen i addysg uwch.

Dilyniant o'r cyfnod 14-19 i gyflogaeth. Nid yw cymwysterau Lefel 1 a 2 yn darparu'r mynediad i gyflogaeth fel yr honnir. Ac mae posibiliadau dysgu seiliedig ar waith yn is fyth. Bydd y dirwasgiad presennol yn prinhau cyfleoedd i symud i hyfforddiant pellach a chyflogaeth. Mae angen polisïau clir sydd wedi'u cyllido'n dda ac sy'n cynnwys addysg bellach a chyflogwyr cyhoeddus a phreifat, fel y gellir hyfforddi pobl ifanc a fyddai fel arall yn ymddieithrio er mwyn iddynt symud i gyflogaeth yn y dyfodol tra'n ennill cyflog wrth hyfforddi.

Bu *dilyniant llyfn a chlir o 14 oed i addysg bellach* yn flaenoriaeth. Ond nid peth hawdd yw sicrhau bod y dilyniant hwnnw'n gywir. Mae maes addysg uwch yn cwyno nad yw pobl ifanc yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y dull mwy annibynnol o astudio yn y brifysgol. Mae ymgeiswyr yn wynebu nifer cynyddol o Brofion Mynediad mewn prifysgolion yn Lloegr, nad ydynt yn destun rheoleiddio a rheolaeth ansawdd. Er gwaethaf ymdrechion y sector AU, mae angen i ofynion mynediad a gweithdrefnau llawer o gyrsiau fod yn fwy eglur – yn arbennig ym maes cymwysterau galwedigaethol.

Cydweithredu rhwng sefydliadau

Mae *trefniadau sefydliadol ar gyfer y sector 14-19 yn Lloegr* yn gymhleth ac, o ganlyniad i gystadleuaeth am ddysgwyr, mae cydweithredu'n fregus. Mae hawl pobl ifanc i gael cynnig mathau gwahanol o gyrsiau a hyfforddiant yn golygu partneriaeth rhwng ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, cyrff gwirfoddol a gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'r priod lywodraethau'n cydnabod hyn. Mae'r Adolygiad yn dadlau o blaid systemau dysgu lleol lle mae cydweithredu cadarn, sy'n adeiladu ar brofiad y rhai hynod lwyddiannus sy'n bodoli eisoes ac sy'n cael eu hyrwyddo yng Nghymru drwy ei Rhwydweithiau Dysgu 14-19. Ond ni ddylid bychanu'r anawsterau, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae lleoliad daearyddol yn gwneud cydweithredu'n arbennig o anodd.

Datblygu polisi

Mae system addysg a hyfforddiant 14-19 sy'n fwy integredig ac ymatebol yn mynnu ymagwedd wahanol at bolisi a llunio polisi. Byddai hyn yn annog ymrwymiad a chyfranogiad parhaus partneriaid allweddol, hynny yw, dysgwyr, gweithwyr proffesiynol addysg, rhieni, cyflogwyr ac addysg uwch. Dylid gwneud penderfyniadau mor agos at y dysgwr ag sy'n ymarferol bosibl, gan ystyried amodau lleol a hanes lleol. Bydd hyn yn golygu datblygu polisi cenedlaethol yn arafach fel y gall pob partner gymryd rhan ystyrlon ym mhob cam o'r broses bolisi.

Argymhellion

Yng ngoleuni'r dystiolaeth, cyflwynwyd yr argymhellion canlynol gennym ar gyfer Cymru a Lloegr fel ei gilydd. Afraid dweud y bydd arwyddocâd pob un rywfaint yn wahanol ar gyfer y ddwy system.

Nodau a Gwerthoedd

1. Dylai'r nodau a'r gwerthoedd a amlinellir uchod fod yn ganolbwynt trafod ar bob lefel ym maes addysg.
2. Lle bydd yn digwydd, mae angen herio iaith dlawd 'rheoli perfformiad' wrth i ni helpu pobl ifanc i weld gwerth yn yr hyn sy'n werthfawr, byw bywydau cyflawn, ennill hunan-barch, gwneud synnwyr o brofiad a dod yn aelodau cyfrifol o'r gymuned.

Adlewyrchu amodau cymdeithasol ac economaidd addysg a hyfforddiant

3. Dylai pob system gydnabod ac ymateb i wahanol amodau economaidd a chymdeithasol sy'n effeithio ar ddysgu, tra'n cydnabod na all addysg wneud iawn am gymdeithas.

Perfformiad cyffredinol a'r dull o'i fesur

4. Dylai dangosyddion perfformiad fod yn 'addas at y diben' – gan adlewyrchu nodau ehangach addysg a gwahanol fathau o ddysgu.
5. Dylai'r dangosyddion hyn fesur cyflawniadau partneriaethau dysgu yn eu cyfanrwydd, ac nid cyflawniadau darparwyr unigol yn unig.
6. Dylid cydnabod cyfraniad hanfodol y sector addysg bellach drwy ddangosyddion perfformiad sy'n adlewyrchu nodau penodedig addysg bellach.
7. Dylai dangosyddion perfformiad ar bob lefel annog cyrraedd o gydraddoldeb rhwng bechgyn a merched, grwpiau ethnig a dosbarthiadau cymdeithasol.

Cyllid

8. Dylid lleihau'r amrywioldeb mewn cyllid a llywodraethu rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr.
9. Dylid darparu cyllid rhagfynegadwy a hirdymor i'r asiantaethau gwirfoddol, cymunedol a'r gwasanaeth ieuenctid, sy'n bartneriaid hanfodol mewn 'addysg i bawb'.

Dysgu ac asesu

10. Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ddysgu ymarferol, dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad.
11. Dylid gwahanu *asesu ar gyfer dysgu* ac *asesu ar gyfer atebolrwydd.*
12. Dylai barn athrawon, wedi'i chymedroli'n addas, fod yn rhan annatod o asesu crynodol.

Addysgu

13. Mae angen i recriwtio, hyfforddiant cychwynnol a datblygiad athrawon ystyried yr wybodaeth ymarferol sydd ei hangen ar gyfer y cyfnod 14-19 cyfnewidiol.
14. Dylai cymwysterau ar gyfer dysgu mewn ysgolion (SAC) a chymwysterau ar gyfer Addysg Bellach (QTLS yn Lloegr) fod wedi'u cysylltu'n nes.
15. Dylid dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y rheiny sy'n meddu ar wybodaeth ymarferol a gwybodaeth seiliedig ar waith, sydd eu hangen yn ddybryd, yn gallu ennill Statws Athro Cymwys.
16. Dylai datblygiad proffesiynol parhaus fod yn *hawl* a chael ei leoli (lle y bo'n briodol) mewn canolfannau datblygiad proffesiynol, dan arweiniad athrawon.

Cwricwlwm

17. Dylai fframwaith y cwricwlwm gyflwyno pob person ifanc i'r canlynol:
    - mathau o ddealltwriaeth sy'n gwneud synnwyr o'u byd ffisegol a chymdeithasol;
    - cyfleoedd i ragori a meddu ar ymdeimlad o gyflawniad;
    - galluoedd sy'n berthnasol yn ymarferol ac yn economaidd;
    - materion o bryder cymdeithasol a phersonol dwys;
    - gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer eu gyrfa, eu hyfforddiant a'u haddysg yn y dyfodol;
    - gwybodaeth, sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i'r gymuned ehangach.
18. Dylid datblygu'r cwricwlwm ar y cyd ac yn lleol rhwng ysgolion, colegau a darparwyr eraill, ond o fewn fframwaith cenedlaethol eang serch hynny.
19. Dylai Lloegr ddysgu gan ymdrechion Cymru yn ei "Llwybrau Dysgu" i gynnwys gweledigaethol ehangach a mwy hyblyg o ddilyniant.

Cymwysterau

20. Dylai Lloegr ddatblygu fframwaith cymwysterau unedig a chynhwysol sy'n cynnwys gwahanol fathau o ddysgu ac sy'n hyrwyddo mwy o ddewis a mwy o ehangder astudio.

21. Mae'r Adolygiad yn cefnogi parhau i ddatblygu Bagloriaeth Cymru fel mai dyma fydd y fframwaith trefnu ar gyfer pob dysgwr 14 - 19 yng Nghymru.

Dilyniant – i hyfforddiant pellach a chyflogaeth

22. Dylai neilltuo'r brand prentisiaethau ar gyfer dysgu seiliedig ar gyflogaeth o ansawdd uchel.

23. Mae angen annog mwy o gyflogwyr, yn arbennig yn y sector cyhoeddus, i gynnig cyfleoedd prentisiaethau.

24. Yn ystod y dirywiad economaidd, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i golegau addysg bellach gynnig mwy o gyrsiau amser llawn, sy'n alwedigaethol iawn eu natur, sy'n arwain at gyflogaeth.

Dilyniant i addysg uwch

25. Mae angen i bob darparwr addysg a hyfforddiant, ar y cyd â Connexions, ddatblygu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad mwy effeithiol er mwyn sicrhau cydweddiad priodol rhwng y myfyriwr, y darparwr a'r cwrs.

26. Mae angen cyfyngu twf profion mynediad annibynnol gan brifysgolion ac adlewyrchu anghenion dethol sefydliadau addysg uwch, lle y bo angen, yn y fframwaith cymwysterau.

Cydweithredu rhwng sefydliadau

27. Dylid trefnu addysg a hyfforddiant 14-19 drwy 'systemau dysgu lleol lle mae cydweithredu cadarn', gan gynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, addysg uwch, y gwasanaeth ieuenctid, sefydliadau gwirfoddol a chyflogwyr.

28. Dylai sbardunau polisi, fel cyllid a mesurau perfformiad, ganolbwyntio ar weithredu ar y cyd yn hytrach na hyrwyddo cystadleuaeth rhwng sefydliadau.

Datblygu polisi

29. Dylid cwtogi ar nifer y mentrau gan lywodraeth ganolog a dim ond cyflwyno newidiadau (yn enwedig yn ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu) ar ôl ymgynghori'n llawn â chynrychiolwyr cyrff proffesiynol a chynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd ar y lefel leol.

30. Dylai asiantaethau sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y cwricwlwm, asesu a chymwysterau fod yn annibynnol ar y llywodraeth.

31. Dylid datganoli mwy o'r gwaith gwneud penderfyniadau ynghylch y cwricwlwm a datblygiad proffesiynol i'r lefelau llywodraethu lleol neu ranbarthol.